SHERMAN CYMRU

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn y swydd

SWYDDOG MARCHNATA A'R WE

Yn amgaeëdig gweler ein ffurflen gais cyfle cyfartal, a'r gwybodaeth canlynol:

- Disgrifiad swydd
- Manylion personol
- Gwybodaeth cefndirol

Cyflog £15,000 - £18,500 yn dibynnu ar brofiad

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Canol Dydd, Dydd Llun 22 Mawrth 2010**. Bydd cyfweliadau i ddilyn yn ystod yr wythnos yna. Sylwer, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn unig.

Cofion Gorau

Heather Jones
Cynorthwyydd Gweinyddol

SHERMAN CYMRU

Sherman Cymru

Y cwmni

Ffurfiwyd Sherman Cymru yn Ebrill 2007 pan unwyd Sgript Cymru, cwmni drama cyfoes cenedlaethol Cymru, â Theatr y Sherman, cwmni oedd wedi cynhyrchu a chyflwyno dramâu yng Nghaerdydd ers blynyddoedd maith.

Ein nod yw cynhyrchu a chyflwyno theatr uchelgeisiol, rymus sy'n ysbrydoli ein cynulleidfaoedd; arwain mentrau sy'n denu cyfranogwyr at y broses greadigol o greu theatr; a cheisio creu amgylchedd arbennig fydd yn meithrin ac yn ysgogi ymarferwyr theatr. Yn ganolog i'n gwaith mae ein hymrwymiad i ddatblygu ac i hyrwyddo gwaith awduron Cymreig, ac awduron sy'n byw yng Nghymru; meithrin cysylltiad pobl ifanc â'r profiad o theatr; ac annog datblygiad artistiaid y genhedlaeth nesaf. 'Rydym yn creu gwaith yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac mae nifer o'n cynyrchiadau yn teithio o amgylch Cymru, a thu hwnt.

Ochr yn ochr â'n cynyrchiadau ein hunain 'rydym yn cyflwyno rhaglen amrywiol sy'n cynnwys gwaith gan gwmnïau sy'n ymweld â'r Sherman, ac mae tîm Dysgu Creadigol y cwmni'n cynnal rhaglen eang drwy gydol y flwyddyn – mae'r manylion ar gael ar www.shermancymru.co.uk/get-involved.

Mae Sherman Cymru yn elusen gofrestredig sydd â statws atebolrwydd cyfyngedig, ac mae'n derbyn arian refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Caerdydd. Ar hyn o bryd mae ein gwaith Dysgu Creadigol yn cael ei gefnogi gan Sefydliad Paul Hamlyn a Sefydliad Rayne.

Adeilad y Sherman

Dros y 18 mis nesaf bydd gwaith adnewyddu sylweddol yn cael ei wneud ar adeilad y Sherman. Bydd y theatr yn cael ei thrawsffurfio ac yn datblygu'n un o adeiladau amlycaf ardal Cathays o Gaerdydd.

"Nod ein cynlluniau ail-ddatblygu yw rhoi lleoliad arbennig i unig theatr gynhyrchu Prifddinas Cymru, adeilad y mae'r theatr ei hun, a'r gynulleidfa yn ei haeddu - ac y gallwn oll ymfalchïo ynddo."
Emyr Jenkins, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Sherman Cymru

Mae'r penseiri Capita Architecture, oedd hefyd yn gyfrifol am brosiect Canolfan Mileniwm Cymru, wedi creu argraffiadau artistig o'r theatr ar ei newydd wedd (ewch i www.shermancymru.co.uk/building-plans). Bydd yr adeilad newydd yn trawsffurfio profiad y gynulleidfa, gyda'r ardal blaen tŷ'n cael ei hatgyweirio'n gyfan gwbl i gynnwys toiledau, bar ac adnoddau caffe newydd sbon, a bydd wyneb y theatr yn cael ei diwygio'n llwyr. Bydd yno hefyd seddi a systemau gwresogi ac awyru newydd, a bydd y mynediad i bob ardal o'r adeilad yn cael ei wella. Bydd yr ardaloedd cefn llwyfan hefyd yn cael eu hehangu ar gyfer staff a chyfranogwyr, gan gynnwys ystafell ymarfer newydd ar gyfer datblygu talent. Bydd y ddau ofod perfformio presennol yn cael eu cadw, gyda'r prif leoliad yn cynnwys 460 o seddi (Lleoliad 1), a'r gofod stiwdio wyth ochrog, ble fydd hi'n bosib newid siâp yr eisteddle, all gynnwys hyd at fwyafrif o 160 o seddi (Lleoliad 2).

Drwy gydol y cyfnod cau bydd Sherman Cymru yn ymarfer, yn teithio neu'n cyflwyno cynhyrchiad newydd bron bob mis. Byddwn yn cynnal ein hymarferion yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter. Byddwn yn perfformio yn Chapter weithiau hefyd, yn ogystal â mewn theatrau eraill, ac mewn lleoliadau mwy anghonfensiynol. Yn ystod y cyfnod hwn mae ein swyddfeydd wedi symud i leoliad dros dro ar Cowbridge Road East, yn agos at ganol y ddinas, a bydd cynyrchiadau'n cael eu llwyfannu mewn lleoliadau penodol a ddewisir yn arbennig, ac mewn lleoliadau theatrig mwy adnabyddus.

SHERMAN CYMRU

Y Tîm Marchnata & Cysylltiadau Cwsmeriaid

Mae'r tîm Marchnata & Cysylltiadau Cwsmeriaid yn uno swyddogaethau Marchnata, y Swyddfa Docynnau a Blaen Tŷ, ac fe'i arweinir gan y Pennaeth Marchnata & Cysylltiadau Cwsmeriaid.

Marchnata: Mae ein tîm Marchnata'n cynnwys Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus ac Ymgyrchoedd, Swyddog Marchnata, a Swyddog Gwefan a Marchnata. Prif swyddogaethau'r tîm Marchnata yw:

- Cynhyrchu llyfrynnau tymhorol
- Cynhyrchu print ar gyfer digwyddiadau a phrosiectau Sherman Cymru, yr adran Dysgu Creadigol, a gweithgareddau Llenyddol
- Creu a rheoli ymgyrchoedd marchnata a chyfryngol ar gyfer yr uchod, yn ogystal ag ar gyfer gweithgareddau'r cwmnïau sy'n ymweld â'r Sherman
- Datblygu a pharhau â gweithgareddau e-farchnata Sherman Cymru
- Cysylltu â Rheolwr y Swyddfa Docynnau er mwyn sicrhau fod y Swyddfa Docynnau'n cael ei rheoli'n hwylus.

Y Swyddfa Docynnau: Tra bod cyfleusterau ein Swyddfa Docynnau ar gau ar hyn o bryd, 'rydym yn defnyddio trefniadau dros dro ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i'r Sherman. Pan fyddwn yn dychwelyd i'r Sherman bydd tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd yn ei le, fydd, mae'n debyg yn cynnwys Rheolwr, a thîm o Gynorthwywyr achlysurol, a byddant yn cyflawni'r gwasanaethau canlynol:

- Cysylltu â Marchnata er mwyn sicrhau llwyddiant ymgyrchoedd
- Gwneud y gorau o system gyfrifiadurol y Swyddfa Docynnau, Databox Provenue
- Gwerthu tocynnau drwy alwadau ffôn, e-bost, ymweliadau personol neu ar-lein
- Darparu'r gofal gorau posib ar gyfer cwsmeriaid.

Blaen Tŷ: Yn ystod y cyfnod cau, un aelod yn unig fydd gan ein tîm Blaen Tŷ, sef y Rheolwr Cyfleusterau. Mae'n gyfrifol am y gweithgareddau Blaen Tŷ pan fo'r cwmni ar daith, a, phan fo angen, pan gynhelir digwyddiadau yng Nghaerdydd. Pan fyddwn yn dychwelyd i'r Sherman mae'n debyg bydd y tîm yn cynnwys Rheolwr, a thîm o staff a thywyswyr achlysurol, a byddant yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Rheoli perfformiadau, er mwyn sicrhau diogelwch a mwynhad aelodau'r gynulleidfa pan fyddant yn yr adeilad
- Rheoli bar a siop effeithiol a buddiol
- Goruchwylio pob cyswllt â'r caffe
- Rheoli'r digwyddiadau a gynhelir yn yr ardal Blaen Tŷ, e.e. cynadleddau, derbyniadau i westeion
- Darparu'r gofal gorau posib ar gyfer cwsmeriaid.

Mawrth 2010

SHERMAN CYMRU

TEITL Y SWYDD:	**SWYDDOG MARCHNATA A'R WE**
YN ATEBOL I:	**Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus & Rheolwr Ymgyrchoedd**
YN GYFRIFOL AM:	Gwirfoddolwyr, fel bo'r angen
PERTHNASAU GWAITH ALLWEDDOL:	Yr uchod, yn ogystal â'r Pennaeth Marchnata & Cysylltiadau Cwsmeriaid a holl staff y tîm Marchnata & Cysylltiadau Cwsmeriaid, y staff Artistig, y staff Dysgu Creadigol

PWRPAS Y SWYDD:
I fod yn gyfrifol am bresenoldeb Sherman Cymru ar y we, e-farchnata a gweithio gyda'r tîm Marchnata ar gynlluniau cynhyrchu ac ymgyrchoedd tymhorol.

CYFRIFOLDEBAU PENODOL:

1. <u>e-farchnata</u>

   Datblygu a gweithredu strategaeth we a marchnata gynhwysfawr

   Gwneud y defnydd gorau posib o'r we ac o e-farchnata at ddibenion gwerthu tocynnau, proffil a phresenoldeb gweithgareddau Sherman Cymru gartref ac ar daith

   Goruchwylio datblygiad y wefan a gwe-letya

   Diweddaru pob adran o'r wefan (gan gynnwys diweddaru'r wybodaeth am weithgareddau'r tîm a'r cynyrchiadau, e.e. digwyddiadau datblygu awduron a'r adan Dysgu Creadigol)

   Creu cynnwys ar gyfer y wefan, ble fo'n addas, e.e. lluniau, e-hysbysluniau a blogiau

   Gwybod y diweddaraf am ddatblygiadau'r wefan ac e-farchnata

   Gwneud y gorau o ryngweithio ar-lein e.e. blogio, adolygiadau, rhwydweithio cymdeithasol

   Sicrhau presenoldeb Sherman Cymru ar restrau gwefannau

   Creu ac anfon e-fwletinau rheolaidd Sherman Cymru

   Monitro a gwerthuso gweithgaredd gwe, cofnodi ystadegau'r we a'r e-fwletinau'n rheolaidd

2. <u>Ymgyrchoedd</u>

   Cynhyrchu llythyru uniongyrchol i gyflawni anghenion ymgyrchoedd

   Cysylltu â'r cwmnïau sy'n dod i ymweld â Sherman Cymru, yng nghyd-destun gofynion post uniongyrchol

   Chwilio am gymorth allanol (e.e. rhestrau postio), fel bo'r angen

   Cynhyrchu rhestrau tymhorol i'w dosbarthu i'r wasg a'r cyfryngau

   Cynorthwyo â threfnu ffotograffiaeth ar gyfer cyhoeddusrwydd a chynhyrchu er mwyn eu harddangos blaen tŷ

   Cynorthwyo ag ymgyrchoedd Sherman Cymru, gartref ac ar daith, ac â gweithgareddau cwmnïau sy'n ymweld â Sherman Cymru, fel bo'r angen

3. <u>Arall</u>

   Cynorthwyo â gweithgareddau Cysylltiadau Cyhoeddus a'r cyfryngau, fel bo'r angen

   Cyd-lynu amrediad o berfformiadau mynediad, fel bo'r angen

   Gweithredu fel prif gyswllt gyda'r tîm Artistig a Llenyddol

SHERMAN CYMRU

Cynorthwyo'r tîm Llenyddol drwy hybu testunau o'r dramâu a sgriptiau sydd wedi eu cyhoeddi

Cyfrannu at drosglwyddo Strategaeth Farchnata Sherman Cymru

Bod yn aelod actif o dîm a mynychu cyfarfodydd, fel bo'r angen

Cyfrannu at gynllunio ymgyrchoedd a chynlluniau ar gyfer y tymor

Cynorthwyo â digwyddiadau ar gyfer gwesteion, y cyfryngau a Chysylltiadau Cwsmeriaid

Mynd i'r afael â gwaith datblygu cynulleidfa, fel bo'r angen

Cynorthwyo â dosbarthu, fel bo'r angen

Cydymffurfio â, a gweithredu Polisi Iaith y cwmni

Cyd-weithio â'r Pennaeth Marchnata & Gwasanaethau Cwsmeriaid ar gydymffurfiad brand

Mae'n ddyletswydd cydymffurfio â'r Datganiad Cyfleoedd Cyfartal cyfredol, ac â datganiadau Polisi eraill, fel y manylir arnynt yn Llawlyfr y Staff.

Sylwer: Fe'ch cyflogir fel **Swyddog Marchnata a'r We**. Fodd bynnag, efallai bydd gofyn i chi gyflawni dyletswyddau eraill ar yr un raddfa a'r u pecyn tâl, ac i'r un nifer o oriau gwaith. Rhoir rhybudd o bedair wythnos i chi o unrhyw newidiadau arfaethedig yn eich dyletswyddau.

Mae hon yn swydd-ddisgrifiad newydd, felly gellir gwneud rhai newidiadau gan eich rheolwr llinell, neu gellir ei thrafod naill ai yn eich Gwerthusiad Blynyddol, neu mewn unrhyw gyfarfod priodol arall, yn ddibynnol ar frys y trafodaethau angenrheidiol.

SHERMAN CYMRU

Swyddog Marchnata a'r We

Y Person

Meini Prawf Hanfodol

- Profiad o farchnata'r celfyddydau, mewn amgylchedd cynhyrchu theatr (yn ddymunol)
- Ymrwymiad cryf i faes gwaith Sherman Cymru, a blaenoriaethau artistig a dysgu Creadigol y cwmni
- Gwybodaeth weithredol am y we ac e-farchnata, yn enwedig integreiddio'r rhyngrwyd fel arf marchnata allweddol, gan reoli'r cynnwys a gwneud y gorau o'r chwilotwr
- Gwybodaeth am safleoedd rhwydweithio cymdeithasol
- TChG-llythrennog, a gwybodaeth am brosesu geiriau, taenlennu a phecynnau e-bost
- Sgiliau ysgrifennu copi rhagorol
- Y gallu i gynhyrchu syniadau gwreiddiol a chreadigol ar gyfer ymgyrchoedd marchnata
- Y gallu i gynllunio, rheoli amser, blaenoriaethu a gweithio ar eich liwt eich hun
- Sgiliau rhyngbersonol cryf, yn ogystal â brwdfrydedd ac egni
- Sgiliau gweinyddu a'r gallu i roi sylw i fanylion
- Agwedd bositif at newid a syniadau newydd
- Agwedd bositif ac ymrwymiad i weithio mewn tîm
- Ymrwymiad at ofal cwsmeriaid
- Ymrwymiad at ddenu'r cyhoedd i gysylltu â gweithgareddau celfyddydol

Meini prawf Dymunol

- Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg
- Cymhwyster penodol yn ymwneud â'r cyfryngau digidol/y we
- Rhywfaint o brofiad o weithio gyda'r wasg a'r cyfryngau
- Gwybodaeth o weithgareddau'r swyddfa docynnau, yn enwedig, Databox
- Gwybodaeth o godio html
- Ymwybyddiaeth o faterion sy'n berthnasol i farchnata'r celfyddydau, ac i ddiwydiant theatr y DU
- Gwybodaeth o fywyd celfyddydol Caerdydd a'r cynulleidfaoedd
- Gyrrwr â thrwydded yrru lân

SHERMAN CYMRU

Swyddog Marchnata a'r We

Amlinelliad o'r Telerau a'r Amodau

Cyflog	£15,000 - £18,500 y flwyddyn, yn dibynnu ar brofiad, i'w dalu'n fisol
Prif leoliad gwaith	Portcullis House, Cowbridge Road East, Caerdydd, tan i'r gwaith ail-ddatblygu ar adeilad Sherman Cymru gael ei gwblhau yn Haf 2011, pryd fydd y Cwmni'n symud nôl i Sherman Cymru, Ffordd Senghennydd, Caerdydd
Oriau'r wythnos	39
Gwyliau blynyddol	28 diwrnod y flwyddyn, yn codi i 33 diwrnod dros bum mlynedd [gan gynnwys gwyliau cyhoeddus]
Cyfnod prawf	Mae'r apwyntiad yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o chew mis yn foddhaol
Rhybudd	Un wythnos yn ystod y cyfnod prawf, un mis wedyn
Pensiwn	Mae'r Cwmni'n gweithredu cynllun Pensiwn Budd-ddeiliad gyda'r Legal & General. Mae'r holl staff a gyflogir am dri mis neu ragor yn gymwys i ymuno â'r cynllun

SHERMAN CYMRU

Sherman Cymru – Rhestr staff presennol

Cyfarwyddwr: Chris Ricketts
Rheolwr Cyffredinol: Margaret Jones

Cyfarwyddwr Cyswllt (Cymraeg):Arwel Gruffydd
Cyfarwyddwr Cyswllt (Saesneg): Amy Hodge
Cysylltydd: Elen Bowman
Cyd-lynydd Artistig: Kate Perridge
Rheolwr Llenyddol: Siân Summers
Cynorthwyydd Llenyddol: Branwen Davies

Gweinyddu
Hyrwyddwr y Mudo a Rheolwr Cyfleusterau: Marina Newth
Gweinyddwr: Elin Partridge

Datblygu
Pennaeth Datblygu (rh/a): Emma Goad
Rheolwr Apêliadau: Suzanne Carter

Cyllid
Pennaeth Cyllid: Philippa McGrath
Cynorthwyydd Cyllid: Marion Price

Dysgu Creadigol
Pennaeth Dysgu Creadigol: Jessica Naish *(absenoldeb dros dro)*
Pennaeth Dysgu Creadigol dros dro: Phil Mackenzie
Swyddog Cyswllt Dysgu Creadigol (rh/a): Llinos Mai
Swyddog Cyswllt Dysgu Creadigol: Jason Camilleri
Cynorthwyydd Dysgu Creadigol/Gweinyddol: Heather Jones

Marchnata a Chysylltiadau Cwsmeriaid
Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau Cwsmeriaid: Haleh Tozer *(Mamolaeth)*
Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus ac Ymgyrchu: Alice Baynham *(Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau Cwsmeriaid dros dro)*
Swyddog Marchnata a'r We: *i'w b/phenodi*
Swyddog Marchnata: Bethan Way

Cynhyrchu a Gweithrediadau
Pennaeth Cynhyrchu a Gweithrediadau: Nick Allsop
Prif Drydanwr: Rachel Mortimer
Is Brif Drydanwr: Katy Stephenson
Trydanwr ar gyfer y Cynhyrchiad: Gareth Evans
Rheolwr Llwyfan Technegol: Gareth Gordon
Rheolwr Gwisgoedd: Deryn Tudor